**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym am 4.00am ar 2 Awst 2021, lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth i chi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion Cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau heddiw yn:

- dileu'r gofynion o ran hunanynysu a chael prawf PCR ar ddiwrnod 8 ar gyfer teithwyr sydd wedi'u brechu'n llawn sy'n dod i Gymru o unrhyw un o 27 o wledydd yr UE, gwledydd y Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd (Norwy, y Swistir, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein) a gwledydd microwladwriaethau Ewrop (Andorra, Monaco, San Marino a Dinas y Fatican); neu Unol Daleithiau America;

- darparu bod yn rhaid i berson, er mwyn dangos tystiolaeth o statws brechu llawn, gyflwyno ar gyfer yr UE Dystysgrif COVID Ddigidol yr UE; neu gyflwyno ar gyfer UDA gerdyn brechu’r Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau;

- gosod dyletswyddau ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol i wirio tystiolaeth o gymhwystra os ydynt yn hawlio esemptiadau rhag y gofynion teithio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae angen i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl i barhau â’r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, oherwydd y bydd y gyfraith yng Nghymru yn gymwys i deithwyr, ni waeth pa borthladd y daethant drwyddo. O ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services